COVID-19 Update: 24th June

In the latest COVID-19 update from Cardiff Council: more useful information on schools reopening; school traffic schemes ensure social distancing the safe way; latest on a new primary school for north-west Cardiff; and providing digital devices and connectivity in the community.

Useful information about schools reopening next week

Ahead of schools starting to reopen from Monday June, 29, we have put together some information for parents and carers to answer any questions you may have before your child returns to school.

Our Frequently Asked Questions cover a range of topics from health and safety, attendance, the school day, catering, transport and more.

View the FAQs here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Schools/FAQ-for-parents-and-pupils/Pages/default.aspx

New school traffic schemes to maintain social distancing in a safe way

A series of new traffic schemes will be put in place across Cardiff, to ensure children and families can maintain social distancing safely and be supported to use active travel, when schools reopen from Monday 29, June.

Road closures will take place at 27 schools sites, to facilitate social distancing at school drop-offs and picks up, meaning that children and families can utilise roads where needed.

Other measures will include the widening of pavements and pathways and the introduction of temporary 20mph limits on roads at some school sites.

Read more here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/24172.html

New primary school provision to serve north-west Cardiff

The latest recommendations on the proposals to establish new primary school provision to serve parts of north-west Cardiff have been approved by the local authority's Cabinet today.

The report notes that the delivery of the new school will be delayed as a result of COVID-19 but that negotiations are ongoing with the developer in relation to their revised timetable.

When progressed, the new school would serve the early phases of the Plasdŵr development as well as parts of Cregiau, St Fagans, Radyr, Morganstown and Fairwater.

It would be dual stream, organised as one-form of entry offering Welsh-medium education and one-form of entry offering English-medium places with enhanced use of Welsh. The school would also offer 96 part-time nursery places, with half of the places being Welsh-medium and half English-medium, also with significant use of Welsh.

At its meeting on 23 January 2020, the Council's Cabinet agreed the publication of a statutory notice, outlining the proposals to allow for objections. The statutory notice was published on 26 February 2020 for a period of 28 days and the Council received three objections, each stating that the new school should be a dedicated Welsh-medium two form of entry primary school.

Cabinet Member for Education, Employment and Skills, Cllr Sarah Merry said: "Cardiff Council has committed to growing the Welsh language as set out in our bilingual strategy which is consistent with the Welsh Government's own Cymraeg 2050 strategy.

"We have also outlined our pledge to promoting the benefits of Welsh-medium education to all Cardiff communities. It is important however, that we increase our Welsh-medium education in a strategic way to make certain that the balance of school provision reflects the balance of demand.

"This will ensure that our new schools are on a strong financial footing; our existing primary schools in the area remain viable; and that the schools we offer cater for the range of parental preference we see in Cardiff.

"These proposals would deliver an innovative variation on the traditional dual-stream primary school provision and see a significantly greater focus on Welsh teaching within the English medium stream. This is a model that has been developed from nearly 40 years of research in the Basque region, which has seen the uptake of Basque grow to circa 90% from a similar position to that of Welsh speaking in Cardiff. The school would present an exciting opportunity in how the Welsh language is taught to pupils in an English-medium school and whether choosing Welsh-medium or English-medium education, and deliver high quality education in a 21st Century learning environment."

Cllr Merry added: "The global health crisis has had implications on developments across the country but will be working with developers to ensure the new school can be established at the earliest possible time."

A full copy of the reports are available to view online at:
www.cardiff.gov.uk/meetings

Providing the most vulnerable with digital devices and connectivity in the community

Digital Support Services Cardiff who are part of the Adult Learning team, have received free devices from the Future Dot Now/ Good Things Foundation through the Devices.Now initiative. The scheme aims to provide the most vulnerable in our communities with the chance to get online, reduce social isolation and learn new skills.

The tablets come fully loaded with the internet, apps, links and most importantly digital skills training modules to help the recipients get to grips with their new device!

The team at Digital Support Cardiff keep in regular contact with the recipients and the organisations which referred them, and provide online support through digital surgery sessions.

Facebook - Digital Support Services Cardiff
Twitter @digisuppcardiff
Instagram: @digisupportcardiff

Diweddariad COVID-19: 24 Mehefin

Yn y diweddariad COVID-19 diweddaraf gan Gyngor Caerdydd: gwybodaeth ddefnyddiol am ysgolion yn ailagor yr wythnos nesaf; cynlluniau traffig ysgol newydd i sicrhau cydymffurfiaeth â mesurau ymbellhau cymdeithasol mewn ffordd ddiogel; mae'r argymhellion diweddaraf ar y cynigion i sefydlu darpariaeth ysgol gynradd newydd i wasanaethu rhannau o ogledd-orllewin Caerdydd; a'c rhoi dyfeisiau digidol i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed i'w cadw mewn cysylltiad â'r gymuned.

Gwybodaeth ddefnyddiol am ysgolion yn ailagor yr wythnos nesaf

Cyn ysgolion dechrau ailagor o ddydd Llun Mehefin, 29, rydym wedi casglu gwybodaeth at ei gilydd i rieni a gofalwyr i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych cyn i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol.

Mae ein Cwestiynau Cyffredin yn ymdrin ag ystod o bynciau o iechyd a diogelwch, presenoldeb, y diwrnod ysgol, arlwyo, trafnidiaeth a mwy.

Edrychwch ar y Cwestiynau Cyffredin yma:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/cwestiynau-cyffredin-i-rieni-a-disgyblion/Pages/default.aspx

Cynlluniau traffig ysgol newydd i sicrhau cydymffurfiaeth â mesurau ymbellhau cymdeithasol mewn ffordd ddiogel

Bydd cyfres o gynlluniau traffig newydd yn cael eu rhoi ar waith ledled Caerdydd i sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cadw pellter cymdeithasol yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi i deithio'n llesol pan fydd ysgolion yn ailagor o ddydd Llun 29 Mehefin.

Bydd ffyrdd yn cael eu cau mewn 27 o safleoedd ysgol er mwyn hwyluso ymbellhau cymdeithasol mewn mannau gollwng a chasglu. Bydd plant a theuluoedd yn gallu defnyddio ffyrdd lle bo angen.

Bydd mesurau eraill yn cynnwys lledu palmentydd a llwybrau a chyflwyno cyfyngiadau 20mya dros dro ar ffyrdd mewn rhai safleoedd ysgol.

Darllenwch fwy yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/24173.html

Darpariaeth ysgol gynradd newydd i wasanaethu Gogledd-orllewin Caerdydd

Mae'r argymhellion diweddaraf ar y cynigion i sefydlu darpariaeth ysgol gynradd newydd i wasanaethu rhannau o ogledd-orllewin Caerdydd wedi'u cymeradwyo gan Gabinet yr awdurdod lleol heddiw.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y bydd y broses o gyflwyno'r ysgol newydd yn cael ei hoedi o ganlyniad i COVID-19 ond bod trafodaethau yn parhau gyda'r datblygwr o safbwynt eu hamserlen ddiwygiedig.

Wrth symud ymlaen, byddai'r ysgol newydd yn gwasanaethu camau cynnar datblygiad Plasdŵr yn ogystal â rhannau o Cregiau, Sain Ffagan, Radur, Pentre-poeth a'r Tyllgoed.

Bydd yn ysgol ddwy ffrwd, wedi ei threfnu ag un dosbarth mynediad yn cynnig addysg Gymraeg ac un dosbarth mynediad yn cynnig llefydd Saesneg gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg. Byddai'r ysgol hefyd yn cynnig 96 o lefydd meithrin rhan-amser, gyda hanner y llefydd yn rhai Cymraeg a'r hanner arall yn rhai Saesneg, ond hefyd â defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr 2020, cytunodd Cabinet y Cyngor i gyhoeddi hysbysiad statudol, gan amlinellu'r cynigion i ganiatáu ar gyfer gwrthwynebiadau. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 26 Chwefror 2020 am gyfnod o 28 diwrnod a chafodd y Cyngor dri gwrthwynebiad, gyda phob un yn datgan y dylai'r ysgol newydd fod yn ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad cyfrwng Cymraeg benodedig.

Dwedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau, y Cynghorydd Sarah Merry: "Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i dyfu'r Gymraeg fel y'i nodir yn ein strategaeth ddwyieithog sy'n gyson â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ei hun.

"Rydym hefyd wedi amlinellu ein haddewid i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg i holl gymunedau Caerdydd. Mae'n bwysig, fodd bynnag, ein bod yn cynyddu ein haddysg Gymraeg mewn modd strategol er mwyn gwneud yn siŵr bod cydbwysedd y ddarpariaeth ysgolion yn adlewyrchu cydbwysedd y galw.

"Bydd hyn yn sicrhau bod ein hysgolion newydd yn sefyll ar seiliau ariannol cadarn; bod ein hysgolion cynradd presennol yn parhau i fod ddichonadwy; a bod yr ysgolion

yr ydym yn eu cynnig yn darparu ar gyfer yr amrywiaeth o ddewisiadau rhieni rydym yn eu gweld yng Nghaerdydd.

“Os ânt rhagddynt, bydd y cynigion hyn yn cynnig amrywiad blaengar ar y ddarpariaeth gynradd ddwy ffrwd draddodiadol ac yn gweld ffocws sylweddol fwy ar ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y ffrwd Saesneg. Mae hwn yn fodel wedi'i ddatblygu o bron 40 mlynedd o ymchwil yn rhanbarth gwlad y Basg, sydd wedi gweld twf yn y Fasgeg i tua 90% a hynny o sefyllfa debyg i'r nifer sy'n siarad Cymraeg yng Nghaerdydd. Byddai'r ysgol yn cynnig cyfle cyffrous yn y modd y dysgir y Gymraeg i ddisgyblion mewn ysgol Saesneg, boed yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg, ac yn darparu addysg o ansawdd uchel mewn amgylchedd dysgu addas i’r unfed ganrif ar hugain.”

Ychwanegodd y Cynghorydd Merry: "Mae'r argyfwng iechyd byd-eang wedi cael goblygiadau ar ddatblygiadau ledled y wlad ond byddwn yn gweithio gyda datblygwyr i sicrhau y gellir sefydlu'r ysgol newydd ar yr adeg cynharaf posib."
Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc pan fydd yn cyfarfod ar 23 Mehefin, cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet ar 24 Mehefin.

Mae copi llawn o’r adroddiadau i’w gweld yma
https://cardiff.moderngov.co.uk/Pwyllgorau

Rhoi dyfeisiau digidol i’r rhai sydd fwyaf agored i niwed i’w cadw mewn cysylltiad â’r gymuned

Mae Gwasanaeth Cymorth Digidol Caerdydd sy’n rhan o’r tîm Dysgu i Oedolion, wedi derbyn dyfeisiau am ddim gan Future Dot Now/ Good Things Foundation trwy’r fenter Devices.Now. Nod y cynllun yw rhoi cyfle i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau fynd ar-lein, lleihau allgáu cymdeithasol a dysgu sgiliau newydd.

Mae’r rhyngrwyd, appiau, dolenni ac yn bwysicaf modiwlau hyfforddi sgiliau digidol ar y cyfrifiaduron llechen yn barod i helpu’r rhai sy’n eu cael i ddysgu sut i ddefnyddio eu dyfais newydd!

Mae'r tîm yn Cymorth Digidol Caerdydd yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r derbynwyr a'r sefydliadau a wnaeth eu hatgyfeirio, ac yn rhoi cymorth ar-lein drwy gymorthfeydd digidol.

Facebook - Gwasanaethau Cymorth Digidol Caerdydd
Twitter: @digisupcardiff
Instagram: @digisupportcardiff